| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **1 Mawrth 2012** |
| **TEITL** | **BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno adroddiad er ystyriaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Chwefror 2012** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Ystyried yr argymhellion canlynol a gweithredu fel sy'n briodol. Mae'r Pwyllgor Craffu Gofal yn:**<br><br>**i) Datgan diffyg hyder yn y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfathrebu hefo'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r cyhoedd ynglŷn â phenderfyniadau ynghlwm â threfniadau cau tymor byr wardiau ysbyty yng Ngwynedd.**<br>**ii) Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau i sicrhau gwelliant yn y gyfundrefn ymgynghori a chyfathrebu o'r math yma i'r dyfodol.** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Peter Read**<br>**Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal** |

**CEFNDIR**

1. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Bwrdd Iechyd) yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu trefn graffu effeithiol. Rydym yn disgwyl canllawiau gan Lywodraeth Cymru maes o law, ond yn y cyfamser mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ddod i gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu Gofal y Cyngor. Yn wir, dyma'r unig Fwrdd Iechyd yng Nghymru sydd wedi mentro i wneud hyn, ac mae angen cydnabod ar y cychwyn mai proses arbrofol yw hyn ar hyn o bryd.

2 Yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror, fe drafododd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal (Pwyllgor) nifer o faterion a gyflwynwyd i'w hystyriaeth gan y Bwrdd Iechyd. Yn

ogystal fe ddosbarthwyd llythyron Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd at Glercod Cyngor Tref Pwllheli a Chyngor Cymuned Llanystumdwy i aelodau er gwybodaeth.

3. Yn dilyn cwestiynu cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod, roedd y Pwyllgor yn parhau i fod yn anhapus â rhai o'r ymatebion a gafwyd, a dymunir cyfleu'r pryderon hynny i sylw'r Cyngor llawn. Nodir y prif bryderon isod dan y penawdau:

- Argyfwng/ Diogelwch Cleifion
- Ymgysylltu/ Ymgynghori
- Llywodraethu/ Rheolaeth

**ARGYFWNG – DIOGELWCH CLEIFION**

4. Mae aelodau'r Pwyllgor yn gyffyrddus gyda'r egwyddor sylfaenol o sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn â delio gyda sefyllfaoedd argyfyngus i ddiogelwch cleifion yn nwylo swyddogion clinigol sy'n asesu risgiau meddygol sy'n arwain at benderfyniad i weithredu. Serch hynny, nid yw'r aelodau yn gyffyrddus gyda'r drefn o wneud y penderfyniad a'i weithredu ac yn sicr ac yn benodol o ran ei gyfathrebu. Nodir isod y rhesymeg a ddilynwyd gan y clinigwyr i gyrraedd at eu penderfyniad i gau Ward Hafan ac yna Ward Llŷn (Ysbyty Bryn Beryl) yn ddirybudd ym mis Rhagfyr 2012.

5. Nodir mewn llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2012 gan Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd i Glerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy: *'Fel Bwrdd Iechyd cyfrifol, ein prif flaenoriaeth yw diogelwch cleifion. Arweinir y sefydliad gan glinigwyr, ac mae gennym ddyletswydd gofal i'n holl gleifion. Wrth i bwysau ddechrau cynyddu, roedd gofyn i staff clinigol wneud penderfyniadau ar frys fel nad oedd diogelwch cleifion yn cael ei beryglu.*' a *'Cafodd y newidiadau i Ward Hafan (Ysbyty Bryn Beryl) eu gwneud er mwyn amddiffyn diogelwch cleifion*.'

6. Ni chafodd aelodau'r Pwyllgor eu darbwyllo gan atebion swyddogion y Bwrdd Iechyd bod tystiolaeth i ddangos bod y clinigwyr wedi ystyried y risg i ddiogelwch cleifion bregus o orfod teithio dros 50 milltir i dderbyn gofal neu eu cyfeirio at ddarpariaeth anaddas yn fwy lleol wrth gymryd eu penderfyniad ar frys.

7 Yn yr un llythyr (ac mewn llythyr at Glerc Cyngor Tref Pwllheli dyddiedig 19 Ionawr 2012), fe nodir mai un rheswm dros y cau oedd, *'O'r 402 o gleifion a dderbyniwyd, côd post Pwllheli oedd gan 320. Felly o safbwynt yr 82 claf arall, byddai ysbytai eraill yng Ngwynedd wedi bod yn fwy addas ac yn nes at eu cartrefi*.'

8 Eto, nid oes tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol mai'r rheswm dros ddewis cleifion i gael eu lleoli yn Ysbyty Bryn Beryl oedd er mwyn i'r cleifion fod yn agosach at eu teuluoedd (yn hytrach na'u cartrefi). Byddai hyn yn debygol o brysuro eu gwellhad.

**YMGYSYLLTU/ YMGYNGHORI**

9 Yn llythyr Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd at Glerc Cyngor Tref Pwllheli ar 19 Ionawr 2012, fe nodir: *’Pan wnaethpwyd y penderfyniad i grynhoi gwasanaethau Gogledd Cymru dros dro am y gaeaf [sef y penderfyniad i gau Ward Llŷn yn Ysbyty Bryn Beryl] dywedwyd wrth ein staff, y Cyngor Iechyd Cymuned, Meddygon Teulu, aelodau etholedig a sefydliadau partneriaeth cyn gynted â phosibl, o fewn 24 awr i wneud y penderfyniad.*’

10 Ni chafwyd tystiolaeth i ddangos ei fod wedi digwydd ac felly ni ddarbwyllwyd yr aelodau o hynny. Nid oedd hynny’n dderbyniol gan yr aelodau.

**LLYWODRAETHU/ RHEOLAETH**

11 Yn yr un llythyr fe nodir, *’Mewn sefyllfaoedd lle bo newidiadau dros dro yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch yn y tymor byr, rydym yn cadw’r hawl i roi’r rhain ar waith yn sydyn fel gellir defnyddio sgiliau ein staff i ofalu am y cleifion mwyaf gwael. Mewn amgylchiadau o’r fath rydym yn dweud wrth y Cyngor Iechyd Cymuned o’n bwriad, a’n rhesymau o ran diogelwch am gymryd penderfyniadau o’r fath, a dyma wnaethom y tro hwn.*’

12 Mae’n debyg fod penderfyniad gan y clinigwyr wedi digwydd rhywbryd cyn 20 Rhagfyr. Mae’n ymddangos bod Prif Weithredwr, Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd wedi cael gwybod ar 20 Rhagfyr ond ni hysbyswyd aelodau’r Cyngor Iechyd Cymuned na budd-ddeiliaid allweddol eraill tan 22 Rhagfyr. Eto, nid oedd hynny’n dderbyniol gan yr aelodau.

13 Mae’r aelodau’n bryderus nad oes tystiolaeth o gydweithio effeithiol rhwng y Clinigwyr a’r Bwrdd Iechyd ac nad oes trefniadau priodol mewn lle o safbwynt cyfathrebu clir ac amserol rhwng y Bwrdd Iechyd, Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd, Meddygon Teulu, aelodau etholedig a sefydliadau partneriaeth.

14 Mae hyn yn wir mewn sefyllfaoedd sy’n codi ar frys ac yn gyffredinol o safbwynt cynllunio a darparu gwasanaeth. Mae aelodau’n ystyried bod sefyllfa o’r fath yn annerbyniol

15 Nododd swyddogion y Bwrdd Iechyd eu bod yn derbyn bod angen edrych ar ddulliau cyfathrebu gwell. Mae’r profiadau uchod yn cadarnhau’r angen i wneud hyn.

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i aelodau'r Cyngor ystyried yr argymhellion canlynol a gweithredu fel sy'n briodol. Mae'r Pwyllgor Craffu Gofal yn:**

**i) datgan diffyg hyder yn y modd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyfathrebu hefo'r Cyngor Iechyd Cymuned a'r cyhoedd ynglŷn â phenderfyniadau ynghlwm â threfniadau cau tymor byr wardiau ysbyty yng Ngwynedd.**

**ii) Gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau i sicrhau gwelliant yn y gyfundrefn ymgynghori a chyfathrebu o'r math yma i'r dyfodol.**